

CYNGOR CAERDYDD

DEDDF SAFONAU A THREFNIADAETH YSGOLION (CYMRU) 2013

DARPARIAETH ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL

YSGOL UWCHRADD WILLOWS

HYSBYSIR DRWY HYN yn unol ag Adran 42 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'r Cod Trefniadaeth Ysgolion, bod Cyngor Caerdydd ("yr Awdurdod"), ar ôl ymgynghori ag unrhyw bersonau yr oedd yn ymddangos iddynt eu bod yn briodol, yn cynnig newid Ysgol Uwchradd Willows, Willows Avenue, Tremorfa, CF24 2YE fel a ganlyn:

- sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol 30 lle ar gyfer dysgwyr sydd ag anghenion dysgu cymhleth yn Ysgol Uwchradd Willows

Cynigir gweithredu'r cynnig o Fedi 2023.

Cynhelir yr ysgol gan Gyngor Caerdydd ar hyn o bryd.

Cynhaliodd yr Awdurdod gyfnod ymgynghori cyn penderfynu cyhoeddi'r cynnig hwn. Gellir gweld adroddiad ar yr ymgynghoriad sy'n cynnwys crynodeb o'r materion a godwyd gan yr ymgynghoreion, ymatebion yr Awdurdod a barn Estyn yn:

[Agenda'r Cabinet Ddydd Iau, 10 Mawrth, 2021, 2:00 pm: Cyngor Dinas Caerdydd \(modern.gov.co.uk\)](http://modern.gov.co.uk)

Ar hyn o bryd, capasiti'r ysgol yw 1121 o leoedd. Nifer cyfredol y disgyblion yn yr ysgol yw 709.

Does dim cynlluniau i newid polisi'r Cyngor ar dderbyn plant i'r ysgol yn sgil y cynigion hyn.

Rheolir derbyniadau i'r ganolfan adnoddau arbenigol gan yr awdurdod lleol, yn amodol ar ddatganiad o Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) neu Gynllun Datblygu Unigol (CDU) fel y bo'n briodol.

Byddai derbyniadau i'r ganolfan adnoddau arbenigol ar wahân i'r derbyniadau i'r brif ysgol a byddai'n ychwanegol at Nifer Derbyn Cyhoeddedig (NDC) yr ysgol.

Bydd unrhyw drefniadau ar gyfer cludo disgyblion i'r ysgol yn cael eu gwneud yn unol â pholisïau presennol yr Awdurdod ar gludo plant i'r ysgol.

O fewn cyfnod o 28 diwrnod wedi dyddiad cyhoeddi'r cynigion hyn, sef erbyn 02 Mehefin 2022, caiff unrhyw berson wrthwynebu'r cynigion hyn.

Dylid anfon gwrthwynebiadau at y Cyfarwyddwr Addysg a Dysgu Gydol Oes, Cyngor Caerdydd, Neuadd y Sir, Glanfa'r Iwerydd, Caerdydd, CF10 4UW.

Gellir hefyd anfon gwrthwynebiadau at y Cyfarwyddwr Addysg a Dysgu Gydol Oes, Cyngor Caerdydd i'r cyfeiriad e-bost canlynol: ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk

Rhaid i unrhyw wrthwynebiadau o'r fath a anfonir drwy e-bost gynnwys enw llawn a chyfeiriad post yr un sy'n gwrthwynebu.

Bydd yr Awdurdod yn cyhoeddi crynodeb o unrhyw wrthwynebiadau o'r fath a wneir (ac nad ydynt wedi'u tynnu yn ôl yn ysgrifenedig) yn ystod y cyfnod gwrthwynebu, ynghyd â sylwadau'r awdurdod ar y gwrthwynebiadau hynny, cyn pen 7 niwrnod, gan ddechrau ar y diwrnod y penderfynir ar y cynnig.

Dyddiedig y 6ed o Fai 2022

Llofnod: Davina Fiore
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol, Llywodraethiant
a Swyddog Monitro Cyngor Caerdydd

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw hwn yn rhan o'r Hysbysiad ond ei nod yw egluro'i ystyron cyffredinol)

Mae Ysgol Uwchradd Willows yn ysgol uwchradd gymunedol cyfrwng Saesneg sydd wedi'i lleoli yn Nhremorfa.

Er mwyn ateb y galw am ddarpariaeth arbenigol i ddysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, cynigir sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol 30 lle ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu cymhleth yn Ysgol Uwchradd Willows o fis Medi 2023.

Cynigir y byddai'r ganolfan newydd yn cael ei darparu i ddechrau yn yr adeiladau presennol, gyda'r addasiadau angenrheidiol yn cael eu gwneud. Yna byddai gofod arbenigol yn cael ei ddarparu fel rhan o ddatblygiad Ysgol Uwchradd newydd Willows.

Mae'r cynnig hwn yn rhan o ystod o gynigion ar gyfer cynyddu nifer y lleoedd sydd ar gael i ddisgyblion sydd ag anghenion dysgu cymhleth a chyflwr sbectrwm awtistiaeth mewn nifer o ysgolion o fewn yr awdurdod lleol. Gellir gweld manylion y cynigion hyn a chopïau o'r hysbysiadau statudol ar y dudalen we yma: [Anghenion Dysgu Cymhleth/Darpariaeth Cyflwr Sbectrwm Awtistiaeth \(caerdydd.gov.uk\)](http://Anghenion_Dysgu_Cymhleth/Darpariaeth_Cyflwr_Sbectrwm_Awtistiaeth(caerdydd.gov.uk))